# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Ionawr 11eg yn Neuadd Parc. Yn bresennol oedd Euros Puw (cadeirydd), Jean Roberts, Huw Charles, Arwel Davies, Geraint Jones, Geraint Davies, Rhys Richards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynfryn Williams, Gwynedd Jones a'r Cyng. Elwyn Edwards

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Tachwedd a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf
i) Angen torri coed ger mynedfa chwarel Arenig- cafwyd cadarnhad fod y safle wedi cael ei ddiogelu.

b) Biniau halen.
Adroddwyd fod y biniau am gael ei ailosod a'i llenwi yn y dyddiau nesaf.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Un Llais Cymru.
i) Eu hymateb i'r ymgynghoriad ar drethi lleol ar ail gartrefi a llety hunan arwylo.
ii) Diweddariad ar y penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â Rheolau Etholiadau Lleol 2021.
iii) Diweddariad ynglŷn â'r cymwysterau penodol i glercod.

b) Partneriaeth Penllyn.
i) Cais am gadarnhad o gynrychiolwyr pwyllgorau Cwmni Pum Plwy Penllyn a Phartneriaeth Penllyn. Cytunwyd y byddai Geraint Davies a Jean Roberts yn cynrychioli'r Cyngor yn y pwyllgorau.
ii) Diweddariad ar ddatblygiadau Canolfan Henblas.

c) Llywodraeth Cymru
i) Ymgynghoriad ar y 'Ddeddf Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021'.

ch) Amrywiol.
i) Cadwch Gymru'n Daclus – posteri yn hyrwyddo eu hymgyrch baw cwn. Cytunwyd i'w dosbarthu.
ii) Dŵr Cymru - diweddariad ar y gwaith diogelwch ar gronfa ddŵr Llyn Tegid.
iii) Triathlon Y Bala - gwybodaeth ynglŷn â'r cyllid a oedd ar gael i grwpiau cymunedol i hybu gweithgareddau chwaraeon yn ardal Penllyn.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**
a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a chytunwyd i'w cefnogi:-
NP5/72/40F – Codi dau adeilad amaethyddol. Tyddyn Du, Parc.
NP5/72/E249A - Ymgynghoriad, gosod llinell drydan uwchben tir ger Rhydyfen, Arenig.
NP5/72/143M - Codi dosbarth tu allan pren gyda gorchudd estynadwy, dec pren newydd, llwybrau a wal gynnal. Byd Mari Jones, Llanycil.

**vi) Materion Ariannol**
a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau)
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Rhagfyr a chafwyd yn gywir.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

b) Cyllideb a Praesept 2022/23 – materion i'w ystyried
i) Ail danysgrifio i Zoom – cytunwyd i gynnwys y gost yn y gyllideb.
ii) Etholiadau Cyngor Cymuned 2022 – cytunwyd i gynnwys y costau perthnasol.
iii) Adolygu cyflog a chostau'r clerc - cytunwyd i gynnwys yr oriau ychwanegol a oedd ynghlwm a chreu'r crynodeb misol yng nghyflog blynyddol y clerc. Cytunwyd i brynu gliniadur i'r clerc ar y cyd gyda chyngor Llandderfel.
iv) Cytunwyd i gynyddu'r arian ar gyfer hyfforddiant, y wefan, ffioedd y banc a gyda'r cynnydd lleiaf i amryw o'r costau gweinyddol. Er bod 3 mis o wariant gros y cyngor tu cefn, cytunwyd i godi'r Praesept 2022-23 i £4,500 fel bod modd cefnogi unrhyw brosiectau lleol.

c) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
Cyflog a chostau'r clerc (Hyd-Rhag), TWE, HG Webb Designs (gwefan), ICO - taliad DD blynyddol. Amnewid siec allan o ddyddiad, Sioe Maesywaen.

d) Ceisiadau Ariannol.
Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Urdd Gobaith Cymru, Tŷ Gobaith, Ambiwlans Awyr Cymru, Dawns i Bawb a CFFI Meirionnydd. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r mater canlynol ymlaen:-
i) Hen deiars a bareli olew wedi cael ei gadael ar ochr yr A494 rhwng Glanllyn a Gwernhefin.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mawrth 8fed am 8.00 y.h. yn Neuadd Parc.**



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….